Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Mynydd Llandegai**

**Ysgol Bodfeurig**
**Sling**
**Tregarth**
**Gwynedd**
**LL57 4RN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Mynydd Llandegai

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Mynydd Llandegai |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried themâu gofal a datblygiad, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Mae'r plant yn dangos gwir ddiddordeb ac yn ymgysylltu'n frwd â'u profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r plant yn cael cynnig llawer o gyfleoedd i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain ac maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda.

Mae'r staff yn helpu'r plant i fynegi eu hunain yn gadarnhaol drwy ymateb iddynt mewn ffordd gyson. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn briodol. Mae'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau pob plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Maent yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei drefnu'n briodol a'i fod yn darparu amrywiaeth addas o gyfleoedd chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Maent yn gweithio'n dda â'r tîm o staff i wneud gwelliannau ac i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a gofalwyr.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt.

Mae'r plant yn hapus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, aeth dau ffrind at y staff a chanu eu hoff gân Nadoligaidd yn hyderus ac yn ddigymell. Roedd un plentyn yn mwynhau siarad am ei waith paentio gan sôn sut y gwnaeth greu'r anghenfil, y deinosor a'r mwydyn gwinglyd. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn cyfarwyddo eu chwarae mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Roedd un plentyn yn mwynhau eistedd ar lin aelod o'r staff wrth archwilio'r teganau creaduriaid y môr. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ac yn paratoi eu hunain at amser byrbryd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn ymfalchïo wrth ddangos y sticeri a roddwyd iddynt am eu cyflawniadau a'u hymdrechion. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser byrbryd; maent yn gwrtais ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Maent yn dysgu i gymryd eu tro ac i rannu. Er enghraifft, roedd y plant yn cymryd eu tro i ymarfer eu sgiliau llenwi ac arllwys yn yr hambyrddau tywod a dŵr. Gwnaethant rannu'r deunyddiau crefft yn hyfryd a chydweithio'n dda er mwyn tacluso eu teganau.

Mae'r plant yn ymroi yn llwyr i'w profiadau chwarae a dysgu. Maent yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn dda. Er enghraifft, gwnaethant weithio fel tîm i adeiladu cwch allan o friciau adeiladu mawr, gan ddefnyddio defnydd glas i greu'r môr. Eisteddodd y plant yn y cwch ar ôl ei orffen gan siarad am eu hantur. Mae'r plant yn datblygu eu chwilfrydedd drwy archwilio amrywiaeth o weithgareddau pen bwrdd. Er enghraifft, cymerodd un o'r plant ei amser i ddewis yr addurniadau Nadolig cyn addurno coeden. Canolbwyntiodd plentyn arall yn briodol wrth iddo osod y nifer cywir o begiau pren ar y cerdyn rhif siâp pluen eira. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn mwynhau gwneud marciau a rhedeg o gwmpas yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Yn ystod amser byrbryd, maent yn helpu eu hunain i ffrwythau ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Ar ôl cael byrbryd, mae'r plant yn clirio'r bwrdd ac yn rhoi eu gwastraff bwyd yn y bocs ailgylchu. Maent yn dyfalbarhau wrth wisgo eu cotiau a'u hetiau er mwyn paratoi i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu. Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r gweithdrefnau diogelu er mwyn bodloni'r gofynion. Maent yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb nhw eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda. Maent yn darparu byrbrydau iach a gall y plant ddewis llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo er mwyn datblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol.

Mae'r staff wedi gwella eu proses ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau, ac maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r staff yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol yn briodol ac yn annog y plant i gydweithio a bod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd angen. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel, cyfforddus a hapus.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol. Maent yn trefnu gweithgareddau amser cylch hyfryd er mwyn helpu'r plant i feithrin eu sgiliau iaith a rhifedd yn effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn briodol er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae a dysgu yn ddiogel ac yn lân a'i fod yn darparu cyfleoedd addas i'r plant chwarae'n annibynnol.

Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb nad ymdriniwyd yn llawn â'r argymhelliad a wnaed gennym yn ystod ein hymweliad diwethaf y dylid gwella'r asesiadau risg. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod wrthi'n gweithio arnynt ac yn cael cyngor gan yr unigolyn cyfrifol ac asiantaethau eraill er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu arferion a gweithgareddau'r lleoliad yn glir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr.

Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda theganau o ansawdd da, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd greadigol ac maent yn gwahodd y plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau. Mae ardal addas yn y lleoliad i'r plant storio eu heitemau personol sy'n creu ymdeimlad o berthyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud hynny'n briodol. Maent wedi gweithio'n galed i ymdrin â'r gofynion a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y rhan fwyaf o'r safonau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewis ar sail gwybodaeth am y gofal a ddarperir. Maent yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys yn y lleoliad.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae gan yr unigolyn cyfrifol a'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol i'w gweld yn ffeil cyflogaeth yr aelod newydd o staff er mwyn dangos tystiolaeth fod yr unigolyn yn addas i weithio gyda phlant. Dywedodd y staff eu bod yn mwynhau eu rolau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae partneriaethau cadarnhaol wedi cael eu meithrin â'r rhieni a'r gofalwyr. Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr eu bod yn fodlon ar y lleoliad gan fod eu plant wedi setlo, yn mwynhau mynychu'r lleoliad ac yn datblygu eu hunanhyder yn gadarnhaol. Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr fod y staff yn “*excellent*”, “*friendly*” ac “*approachable*”.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 22 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisi diogelu, er mwyn rhoi'r polisi ar waith a gweithredu'r gweithdrefnau yn briodol a chywir. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 31 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau arwyddocaol i'r lleoliad trwy ei borth ar-lein AGC. | Cyflawnwyd |
| 6 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ei dystysgrif DBS yn gyfredol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod asesiadau risg yn adlewyrchu'n llawn y safle, y gweithgareddau ac unrhyw deithiau y gall plant gymryd rhan ynddynt. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/02/2024